VAUGHAN, JOHN (1871 - 1956), cadfridog

Enw: John Vaughan
Dyddiad geni: 1871
Dyddiad marw: 1956
Priod: Louisa Evelyn Vaughan (née Stewart)
Rhiant: Elinor Anne Vaughan (née Owen)
Rhiant: John Vaughan
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: cadfridog
Maes gweithgaredd: Milwrol
Awdur: John Graham Jones

Ganwyd 31 Gorffennaf 1871 yn ail fab i John Vaughan, Nannau, Dolgellau, Meirionnydd (bu farw 1900) ac Elinor Anne, merch Edward Owen, Garthyngharad, Dolgellau. Medrai'r teulu olrhain ei dras o dywysogion Cymreig yr oesoedd canol. Addysgwyd ef yn Eton ac yn y Coleg Milwrol Brenhinol yn Sandhurst. Ymunodd â'r 7th Hussars yn 1891, a gwelodd wasanaeth milwrol yn yr ymgyrch i ryddhau'r Matabele yn 1896, ym Mashonaland yn 1897 ac yn ymgyrch y Sudan yn 1898. Cafodd ei glwyfo yn ystod y rhyfel yn erbyn y Bweriaid 1899-1901, enwyd ef deirgwaith mewn cadlythyrau, ac enillodd lu o anrhydeddau gan gynnwys y D.S.O. yn 1902. Daeth yn uchgapten yn y 10th Hussars yn 1904 a rhwng 1911 ac 1914 gwasanaethodd fel penllywydd Ysgol Filwrol Netheravon. Ef oedd yn arwain y 3rd Cavalry Brigade yn ystod Rhyfel Byd I; enwyd ef mewn cadlythyrau, enillodd y C.B. yn 1915 a bar i'r D.S.O. yn 1919, a daeth yn Commander Légion d'honneur. Cafodd ei ddewis i arwain y 1st Cavalry Brigade yn 1919, ac ymddeolodd o'r fyddin y flwyddyn ganlynol.

Gwasanaethodd fel llywydd Cymreig y Lleng Brydeinig yn 1932, yr oedd yn arweinydd rhanbarthol y Gwarchodlu Cartref yn ystod Rhyfel Byd II, ac yn ddirprwy lifftenant Sir Feirionnydd o 1943 hyd 1954. Fe fu hefyd yn Ynad Heddwch yn y sir. Cyhoeddodd gyfrol o hunangofiant, *Cavalry and sporting memoirs* (1955), lle ymosododd yn hallt ar arweinyddiaeth David Lloyd George yn ystod Rhyfel Byd I. Yr oedd ganddo ddiddordeb mawr mewn pysgota a hela.

Priododd, 22 Hyd 1913, â Louisa Evelyn, merch hynaf Capten J. Stewart, Alltyrodyn, Llandysul, Ceredigion, a gweddw Harold P. Wardell, Brynwern, Pontnewydd-ar-Wy. Ni fu iddynt blant. Ymgartrefent yn Nannau. Bu farw 21 Ionawr 1956 yn ei gartref ar ôl syrthio oddi ar ei geffyl.

Awdur

Dr John Graham Jones

Ffynonellau

Who was who?

Who's who in Wales (1921, 1933 ac 1937)

The Times, 23 and 26 Ionawr 1956

Annals and Antiquities of the Counties and County Families of Wales (1875)

Mynegai Bywgraffyddol W. W. Price

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 33966360

Wikidata: Q15429403

Dyddiad cyhoeddi: 1997

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng

Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu